

BRO DWYNWEN
Noswyl Nadolig/Christmas Eve
Genedigaeth ein Harglwydd
The Nativity of Our Lord
P.M.



Colect 11 - Yn y Nos

Dduw tragwyddol, a wnaethost i'r noson gysegredig hon lewyrchu â disgleirdeb dy unig wir oleuni: dwg ni, sydd wedi adnabod datguddiad y goleuni hwnnw ar y ddaear, i weld llewyrch dy ogoniant nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 11 - At Night

Eternal God, who made this most holy night to shine with the brightness of your one true light: bring us, who have known the revelation of that light on earth, to see the radiance of your heavenly glory; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Eseia 9. 2-7

Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr; y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew a gafodd lewyrch golau. Amlheaiost orfoledd iddynt, chwanegaist lawenydd; llawenhânt o'th flaen fel yn adeg y cynhaeaf, ac fel y byddant yn gorfoleddu wrth rannu'r ysbail. Oherwydd drylliaist yr iau oedd yn faich iddynt, a'r croesfar oedd ar eu hysgwydd, a'r ffon oedd gan eu gyrrwr, fel yn nydd Midian. Pob esgid ar droed rhyfelwr mewn ysgarnes, a phob dilledyn wedi ei drybaeddu mewn gwaed, fe'u llosgir fel tanwydd. Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon".

Isaiah 9. 2-7

The people who walked in darkness have seen a great light; those who lived in a land of deep darkness - on them light has shined. You have multiplied the nation, you have increased its joy; they rejoice before you as with joy at the harvest, as people exult when dividing plunder. For the yoke of their burden, and the bar across their shoulders, the rod of their oppressor, you have broken as on the day of Midian. For all the boots of the tramping warriors and all the garments rolled in blood shall be burned as fuel for the fire. For a child has been born for us, a son given to us; authority rests upon his shoulders; and he is named Wonderful Counsellor, Mighty God, Everlasting Father, Prince of Peace. His authority shall grow continually, and there shall be endless peace for the throne of David and his kingdom. He will establish and uphold it with justice and with righteousness from this time onwards and for evermore. The zeal of the LORD of hosts will do this.

Salm 96

Canwch i'r ARGLWYDD gân newydd, canwch i'r ARGLWYDD yr holl ddaear. Canwch i'r ARGLWYDD, bendithiwch ei enw, cyhoeddwch ei iachawdwriaeth o ddydd i ddydd. Dywedwch am ei ogoniant ymysg y bobloedd, ac am ei ryfeddodau ymysg yr holl genhedloedd. Oherwydd mawr yw'r ARGLWYDD, a theilwng iawn o fawl; y mae i'w ofni'n fwy na'r holl dduwiau. Eilunod yw holl dduwiau'r bobloedd, ond yr ARGLWYDD a wnaeth y nefoedd. Y mae anrhydedd a mawredd o'i flaen, nerth a gogoniant yn ei gysegr. Rhowch i'r ARGLWYDD, dylwythau'r cenedloedd, rhowch i'r ARGLWYDD anrhydedd a nerth; rhowch i'r ARGLWYDD anrhydedd ei enw, dygwch offrwm a dewch i'w

gynteddoedd. Ymgrymwch i'r ARGLWYDD yn ysblander ei sancteiddrwydd; crynwch o'i flaen, yr holl ddaear. Dywedwch ymhlith y cenhedloedd, "Y mae'r ARGLWYDD yn frenin"; yn wir, y mae'r byd yn sicr ac nis symudir; bydd ef yn barnu'r bobloedd yn uniawn. Bydded y nefoedd yn llawen a gorfoledded y ddaear; rhued y môr a'r cyfan sydd ynddo, llawenyched y maes a phopeth sydd ynddo. Yna bydd holl brennau'r goedwig yn canu'n llawen o flaen yr ARGLWYDD, oherwydd y mae'n dod, oherwydd y mae'n dod i farnu'r ddaear. Bydd yn barnu'r byd â chyfiawnder, a'r bobloedd â'i wirionedd.

Psalm 96

O sing to the LORD a new song; sing to the LORD, all the earth. Sing to the LORD, bless his name; tell of his salvation from day to day. Declare his glory among the nations, his marvellous works among all the peoples. For great is the LORD, and greatly to be praised; he is to be revered above all gods. For all the gods of the peoples are idols, but the LORD made the heavens. Honour and majesty are before him; strength and beauty are in his sanctuary. Ascribe to the LORD, O families of the peoples, ascribe to the LORD glory and strength. Ascribe to the LORD the glory due his name; bring an offering, and come into his courts. Worship the LORD in holy splendour; tremble before him, all the earth. Say among the nations, 'The LORD is king! The world is firmly established; it shall never be moved. He will judge the peoples with equity.' Let the heavens be glad, and let the earth rejoice; let the sea roar, and all that fills it; let the field exult, and everything in it. Then shall all the trees of the forest sing for joy before the LORD; for he is coming, for he is coming to judge the earth. He will judge the world with righteousness, and the peoples with his truth.

Titus 2. 11-14

Oherwydd amlygwyd gras Duw i ddwyn gwaredigaeth i bawb, gan ein hyfforddi i ymwrthod ag annuwioldeb a chwantau bydol, a byw'n ddisgybledig a chyfiawn a duwiol yn y byd presennol, a disgwyl cyflawni'r gobaith gwynfydedig yn ymddangosiad gogoniant ein Duw mawr a'n Gwaredwr, Iesu Grist. Rhoddodd ef ei hun drosom ni i brynu rhyddid inni oddi wrth bob anghyfraith, a'n glanhau ni i fod yn bobl wedi eu neilltuo iddo ef ei hun ac yn llawn sêl dros weithredoedd da.

Titus 2. 11-14

For the grace of God has appeared, bringing salvation to all, training us to renounce impiety and worldly passions, and in the present age to live lives that are self-controlled, upright, and godly, while we wait for the blessed hope and the manifestation of the glory of our great God and Saviour, Jesus Christ. He it is who gave himself for us that he might redeem us from all iniquity and purify for himself a people of his own who are zealous for good deeds.

Luc 2. 1-14, [15-20]

1-14

Yn yr dyddiau hynny aeth gorchymyn allan oddi wrth Cesar Awgwstus i gofrestru'r holl Ymerodraeth. Digwyddodd y cofrestru cyntaf hwn pan oedd Cyrenius yn llywodraethu ar Syria. Aeth pawb felly i'w gofrestru, pob un i'w dref ei hun. Oherwydd ei fod yn perthyn i dŷ a theulu Dafydd, aeth Joseff i fyny o dref Nasareth yng Ngallilea i Jwdea, i dref Dafydd a elwir Bethlehem, i ymgofrestru ynghyd â Mair ei ddyweddi; ac yr oedd hi'n feichiog. Pan oeddent yno, cyflawnwyd yr amser iddi esgor, ac esgorodd ar ei mab cyntafanedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty.

Yn yr un ardal yr oedd bugeiliaid allan yn y wlad yn gwarchod eu praidd liw nos. A safodd angel yr Arglwydd yn eu hymyl a disgleiriodd gogoniant yr Arglwydd o'u hamgylch; a daeth arswyd arnynt. Yna dywedodd yr angel wrthynt, "Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd; a dyma'r arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb." Yn sydyn ymddangosodd gyda'r angel dyrfa o'r llu nefol, yn moli Duw gan ddweud: "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd."

[15-20]

Wedi i'r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i'r nef, dechreuodd y bugeiliaid ddweud wrth ei gilydd, "Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano." Aethant ar frys, a chawsant hyd i Fair a Joseff, a'r baban yn gorwedd yn y preseb; ac wedi ei weld mynegasant yr hyn oedd wedi ei lefaru wrthynt am y plentyn hwn. Rhyfeddodd pawb a'u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt; ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn

myfyrio arnynt. Dychwelodd y bugeiliaid gan ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a glywsant ac a welsant, yn union fel y llefarwyd wrthynt.

Luke 2. 1-14, [15-20]

1-14

In those days a decree went out from Emperor Augustus that all the world should be registered. This was the first registration and was taken while Quirinius was governor of Syria. All went to their own towns to be registered. Joseph also went from the town of Nazareth in Galilee to Judea, to the city of David called Bethlehem, because he was descended from the house and family of David. He went to be registered with Mary, to whom he was engaged and who was expecting a child. While they were there, the time came for her to deliver her child. And she gave birth to her firstborn son and wrapped him in bands of cloth, and laid him in a manger, because there was no place for them in the inn.

In that region there were shepherds living in the fields, keeping watch over their flock by night. Then an angel of the Lord stood before them, and the glory of the Lord shone around them, and they were terrified. But the angel said to them, 'Do not be afraid; for see - I am bringing you good news of great joy for all the people: to you is born this day in the city of David a Saviour, who is the Messiah, the Lord. This will be a sign for you: you will find a child wrapped in bands of cloth and lying in a manger.' And suddenly there was with the angel a multitude of the heavenly host, praising God and saying, 'Glory to God in the highest heaven, and on earth peace among those whom he favours!'

[15-20]

When the angels had left them and gone into heaven, the shepherds said to one another, 'Let us go now to Bethlehem and see this thing that has taken place, which the Lord has made known to us.' So they went with haste and found Mary and Joseph, and the child lying in the manger. When they saw this, they made known what had been told them about this child; and all who heard it were amazed at what the shepherds told them. But Mary treasured all these words and pondered them in her heart. The shepherds returned, glorifying and praising God for all they had heard and seen, as it had been told them.

Ôl Gymun 12 - Yn y Nos

Dduw ein Tad, y noson hon amlygaist inni drachefn ddyfodiad Iesu Grist ein Harglwydd; cadarnhâ ein ffydd a hoelia ein llygaid arno ef nes y gwawria'r dydd

ac y cyfoda Crist, Seren y Bore yn ein calonnau. Iddo ef y bo'r gogoniant, yn awr ac am byth.

Post Communion Prayer 12 - At Night

God our Father, in this night you have made known to us again the coming of our Lord Jesus Christ: confirm our faith and fix our eyes on him until the day dawns and Christ the Morning Star rises in our hearts. To him be glory both now and for ever.

Nadolig Llawen Fawr

a

Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

A Very Merry Christmas

and a

Happy New Year to all!

